# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Hannah Mefin**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd hybrid yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol dros Zoom

**Nos Iau Ebrill 24 2025 am 19:00**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Walter Williams

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. E Mary Jones.

**Ymddiheuriadau** – Y Cyngr. Catrin Wager, Huw Vaughan Jones a Bleddyn Williams

2. **Datgan Diddordeb**

Datganodd y Cynghorydd Huw Vaughan Jones fuddiant personol yn Eitem 6.4 yn yr ohebiaeth drwy e-bost cyn y cyfarfod, gan ei fod yn byw ar yr ystâd dan sylw.

3. **Cofnodion**
   Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2025

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion**

**4.1 Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig –** Cytunwyd bydd y tirfeddiannwr yn creu les newydd - ar y gweill.

**4.2 Lon Newydd –** Dŵr dal i llifo yn Lon Newydd. Nodwyd fod Uned Gwaith Stryd y Gwasanaeth Amgylchedd yn mynd i godi rhybudd dan Adran 72 o'r New Roads and Streetworks Act 1991. Mae Cyngor Gwynedd wedi ceisio cysylltu unwaith eto gyda BT ynglŷn a'r mater ond heb lwyddiant, felly maent nawr yn cael rhybudd ffurfiol ynglŷn a'r gwaith ailosod y ffordd ble mae'r dŵr yn codi – Mae Cyngor Gwynedd nawr yn dweud mai Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am hyn. Y clerc i fynd â'r mater i Dŵr Cymru. – ar y gweill.

**4.3 Cynllun Bioamrywiaeth -** Y Clerc ac Yr Cyng. Catrin Wager ac yr Clerc newydd i cyfarfod i edrych dros y ddogfen mis yma ac ail gyflwyno i'r cyngor – ar y gweill.

**4.4 Cysgodfan Bws ger Maes Bleddyn -** Lleoliad cysgodfan bws wedi ei penderfynu– Y Clerc i gysylltu â chyngor Gwynedd i weld a oes yna diweddariad ar gyfer gosodiad y cysgodfan – ar y gweill.

**4.5 Ffordd rhwng Sgwâr Rachub a Hen Barc** – Cadarnhawyd gan y Cynghorydd Einir Williams fod y ffordd rhwng sgwar rachub a Hen Barc ar y rhestr rhaglen waith 2025-26 – ar y gweill.

**4.6 Parcio Stryd Fawr -** Trafodwyd parcio peryglus ar y stryd fawr. Y Clerc wedi cysylltu a'r adran parcio Cyngor Gwynedd i holi am adnewyddu llinellau melyn presennol ar yr Stryd Fawr yn enwedig wrth ymyl yr siopau / sefydliadau bwyd. Y Clerc i anfon yr union lleoliadau i'r adran i alluogi asesiad o'r sefyllfa – ar y gweill.

**5. Maes Parcio Gerlan -** Adroddwyd fod y gofrestr tir wedi'i diweddaru o'r diwedd, y Clerc yn disgwyl am y ddogfennau perthnasol gan y cyfreithwyr. Twrne y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi derbyn copi o'r teitl a'r cytundeb gwerthu. Dywedwyd ei fod yn dal i ddisgwyl am gynllun o'r tir sy'n cael ei werthu ar hyn o bryd ac maent yn gofyn os oes cynllun wedi ei baratoi – Y Clerc i cadw golwg a'r hwn.

**6. Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Ebrill 2025'

**6.1 Cyfeillion Llyn – Cyfeillion Llyn Perthyn Polisi Gosod Lleol 2050** – Trafodwyd y mater Llythyr Agored Polisi Gosod Lleol – Cymraeg 2050. Trafodwyd pwysigrwydd ystyried y Gymraeg o ran osod tai. Penderfynwyd y Cyngor Cymuned ddatgan cefnogaeth fel cyngor i gryfhau'r Gymraeg. Y cadeirydd i lofnodi'r ddogfen "Tystysgrif o Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol, a'r clerc i anfon yn ol at Cyfellion Llyn.

**6.2 Zip World – Ymgyrch Waddol Cymunedol –** Cadarnhawyd yr Cyngor Cymuned ei bod yn gwbl gefnogol o ymghyrch sydd yn cael ei arwain gan Cyng. Beca Roberts. Prif ffocws yr ymgyrch yw'r gred ei fod yn deg i Zip World ymrwymo cyfran fach o'u helw—1% o drosiant y safle neu 5% o'u helw gweithredol yn Llechwedd a Phenrhyn—i gronfa waddol gymunedol. Trafodwyd y byddai'r cynnydd hwn mewn arian o fudd mawr i'r gymuned leol – Y Clerc i gysylltu a Cyng. Beca Roberts i cadarnhau cefnogaeth yr cyngor cymunedol.

**6.3 Gwahoddiad Zip World** – Penderfynwyd y byddai Cyng. Mary Edwards yn cynrhychioli yr Cyngor Cymunedol yn y Gweithdy 'Llunio Cynllun Buddion Cymunedol' a gynhelir yn *Zip World*, Bethesda ar y 1af o Fai 2025.

**6.4 Arolygon Cymunedol - Newid Ffiniau –** Codwyd y mater o symud Llwyn Bedw o ward Llanllechid i ward Bethesda, fel rhan o broses ail ddiffinio wardiau yng Ngwynedd. Mae Cae Rhosydd a hanner Llwyn Bedw yn ward Llanllechid (gyda rhai tai Llwyn Bedw yn ward Rachub). Mae'r Cyng. Huw Vaughan Jones wedi cysylltu a'r cyngor i ofyn os ydi'r bwriad hefyd i symud Cae Rhosydd i'r ward Bethesda. Ar ol siarad i thrigolion Llwyn Bedw codwyd 2 sylwad

- Fod cost treth cyngor yn debygol o godi tua £20 y flwyddyn wrth symud o ward Llanllechid i ward Rachub.
- Bydd posib pleidleisio yn agosach yn Rachub yn lle gorfod bleidleisio yn Tal Y Bont

Trafodwyd yr uchod a nid yw'r Cyngor Cymuned yn rhagweld unrhyw broblemau gyda'r addasiad yma. Y Clerc i anfon sylwadau yr cyngor cymunedol at Cyngor Gwynedd a gofyn i'r Gyngor ymgynghori â'r thrigolion i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn gywir yn y lle cyntaf.

**10.5 Arwyddion Bethesda i'r Safle Treftadaeth y Byd:** Nodwyd y Clerc fod Donna Watts wedi danfon sylwadau, a phenderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi'r sylwadau hyn – ar y gweill.

**10. Penderfyniadau a Cheisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

**C25/0328/13/RA**
Spar Stores Stryd Fawr,Bethesda

Cais i ryddhau amod 3 (deunyddiau allanol) o ganiatâd cynllunio C23/0547/13/LL ar gyfer creu gofod manwerthu a chanolfan dreftadaeth gan ail-ddefnyddio adeilad SPAR a chodi estyniad tri llawr.
**Penderfyniad:** Ar y Gweill

**C23/0207/13/CR**
Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda

Addasiadau mewnol
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C24/0138/13/LL**
1 Yr Ardd Fawr, Ffordd Gerlan, Gerlan

Codi annedd deuluol
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C24/0903/13/DT**
Bwthyn Wiwer, 93 Ffordd Carneddi, Carneddi

Dymchwel estyniad unllawr presennol i gefn yr eiddo. Codi estyniad deulawr i gefn yr eiddo a chodi lefel yr uchder to presennol.
**Penderfyniad:** Gwrthodwyd

**11. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd | Darparu Clwb Ieuenctid | £4000.00 |
| Partneriaeth Ogwen | IGR Electrical | £301.20 |
| Partneriaeth Ogwen | Costau Rhedeg Llyfrgell | £4356.75 |

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio & Ddatblygu | £28504.46 |
| Partneriaeth Ogwen | Swyddog Cynnal, Oriau Dyfrio basgedi crog | £7800 |
| John Wyn Jones | Cyflog Mawrth 2025 | £436.53 |
| Cyngor Gwynedd | Gwaith Cynnal Tiroedd | £108.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Gwaith Cynnal Tiroedd - Gwair | £108.00 |
| Archwilio Cymru | Ffioedd Archwilio 23/24 | £530.00 |

**12. Crynodeb Llais Ogwen**

- Maes Parcio Gerlan
- Zip World
- Cyflogi Clerc Newydd